# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Cwtsh Caersws**

**Ysgol Gynradd Gymunedol Caersws**
**Maesawelon**
**Caersws**
**SY17 5HG**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cyhoeddi

**Dydd Gwener, 8 Mehefin 2018**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth. Gallwch weld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid ichi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Cwtch Caersws yn gweithredu ar dir Ysgol Gynradd Gymunedol Caersws, Caersws. Mae Cyngor Sir Powys wedi penodi Janet Toms fel unigolyn cyfrifol ac Angela Davies fel y person â gofal. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu o 9am i 11:30am, o ddydd Llun i ddydd Gwener yn ystod tymor yr ysgol yn unig. Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i ofalu am 24 o blant ac mae'n darparu gofal i blant tair i bedair blwydd oed.

Saesneg yw'r brif iaith a chaiff ychydig o'r Gymraeg ei hyrwyddo. Mae hwn yn wasanaeth nad yw'n darparu 'Cynnig Gweithredol' y Gymraeg.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae plant yn mwynhau mynychu'r gwasanaeth ac maent yn hapus i chwarae a chymryd rhan yn y gweithgareddau sydd ar gael iddynt. Mae'r rhan fwyaf yn ymateb yn dda i drefniadau arferol ond gallai rhai o'r plant elwa ar newidiadau i'r rhain. Mae staff yn darparu gofal effeithiol, gan reoli'r rhan fwyaf o'r rhyngweithio'n dda a threfnu cyfleoedd i blant ddysgu a datblygu eu hannibyniaeth. Mae'r amgylchedd yn ardal addas lle y gall y plant chwarae a dysgu. Mae'r arweinyddiaeth yn effeithiol a chaiff eu gweledigaeth o'r gwasanaeth ei rhannu trwy'r datganiad o ddiben.

### 2. Gwelliannau

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella oherwydd dyma'r arolygiad cyntaf ers cofrestru.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Gwnaethom rai argymhellion mewn perthynas â diogelwch pan fydd plant yn cyrraedd y gwasanaeth, rhieni'n llofnodi'r cofnodion damweiniau a digwyddiadau, aildrefnu'r drefn ddyddiol pan fydd y plant yn mynd y tu allan a sicrhau y caiff goruchwyliaeth ac arfarniadau rheolaidd eu cynnal gyda staff.

# 1. Llesiant

## Crynodeb

Mae gan y plant lais ac maent yn mynegi eu hanghenion. Maen nhw'n teimlo'n ddiogel ac yn hapus mewn amgylchedd cyfarwydd a chyda staff cyson. Mae'r plant yn dysgu i gydweithio a rhannu ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dilyn ac yn ymateb yn effeithiol i'r trefniadau sydd ar waith. Maen nhw'n dysgu trwy eu profiadau chwarae ac maen nhw'n dysgu amrediad o sgiliau trwy'r cyfleoedd a ddarperir iddynt.

## Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan y plant lais?

Mae'r plant yn hyderus wrth fynegi eu hunain a'u hanghenion.

Gwrandawyd ar y plant ac roedd ganddynt lais o ran y gweithgareddau a'r gofal roeddent yn eu derbyn. Roeddent yn gallu archwilio rhai ardaloedd o'r gwasanaeth yn rhydd, gan ddewis ble a chyda beth roeddent yn dymuno chwarae o'r pethau hynny a oedd ar gael. Roedd plant yn hyderus wrth ofyn am eitemau roeddent yn dymuno chwarae â nhw nad oeddent yn gallu cael mynediad atynt yn annibynnol. Er enghraifft, gofynnodd un plentyn i chwarae â'r llechen, ac aeth y staff i'w nôl. Yn ystod amser byrbryd, rhoddwyd detholiad o ffrwythau i'r plant ddewis ohonynt, a chynigiwyd llaeth neu ddŵr iddynt ei yfed.

Mae gan blant lais o ran rhai o'r materion yn ymwneud â'r gweithgareddau maen nhw'n cymryd rhan ynddynt.

### 1.2 I ba raddau mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant yn adnabod y staff yn dda ac maen nhw wedi ffurfio perthnasau cadarnhaol gyda nhw.

Cyrhaeddodd y plant y gwasanaeth yn hapus, ac roeddent yn awyddus i ddewis gweithgaredd ac i chwarae gyda'u ffrindiau. Roeddent yn ymdopi'n dda â chael eu gwahanu oddi wrth eu rhieni, ac roeddent yn hapus i fod yn y gwasanaeth. Roeddent wedi ffurfio perthnasau cadarnhaol gyda staff cyfarwydd a chyson, ac roeddent yn gyfforddus yn yr amgylchedd, a oedd helpu iddynt deimlo'n ddiogel. Roedd y plant yn gyfarwydd â'r trefniadau, a oedd yn amlwg yn ystod amseroedd fel amser byrbryd a phan aeth y plant i nôl eu cotiau a'u rhoi amdanynt, a ffurfio rhes yn barod i fynd allan i chwarae.

Mae'r plant yn hapus i fod yn y gwasanaeth, ac maen nhw'n teimlo'n ddiogel oherwydd y trefniadau a'r amgylchedd cyfarwydd.

### 1.3 Pa mor dda mae'r plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn dysgu i rannu a chydweithredu.

Roedd plant yn chwilio am eraill i chwarae ochr yn ochr â nhw. Roeddent yn dechrau deall teimladau ac anghenion eraill, ac roeddent yn dysgu i rannu a chymryd eu tro. Er enghraifft, roedd dau blentyn a oedd yn chwarae yn y garej yn hapus i gymryd eu tro wrth wthio eu ceir i lawr y ramp, gan chwerthin wrth iddynt lanio ar y gwaelod. Roedd y rhan fwyaf o'r

plant yn ymateb yn dda i'r trefniadau a oedd ar waith. Roeddent yn gwybod bod angen iddynt helpu i dacluso pan oeddent wedi gorffen neu pan oedd yn amser tacluso. Roedd rhai plant yn dechrau mynd ychydig yn afreolus, a byddent wedi elwa ar gael y dewis o fynd allan i chwarae i gael ychydig o ymarfer corff cyn yr amser trefnedig.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn rhyngweithio'n dda ac yn ymateb yn effeithiol i'r trefniadau sydd ar waith.

### 1.4 I ba raddau mae’r plant yn mwynhau eu chwarae a’u dysgu?

Mae plant yn cael cyfleoedd i gymryd rhan mewn chwarae rhydd ochr yn ochr â gweithgareddau a arweinir gan oedolion.

Roedd plant yn ymgysylltu â'r gweithgareddau o'u dewis nhw, ac roedd ganddynt gyfleoedd i gymryd rhan mewn tasgau a arweinir gan oedolion. Roedd ganddynt fynediad at feysydd gwahanol o ddysgu ar adegau gwahanol yn ystod y sesiwn. Roedd hyn yn eu galluogi i gael amrediad o brofiadau. Er enghraifft, yn ystod rhan gyntaf y sesiwn, roedd gan y plant fynediad at dywod, dŵr a chwarae rôl. Yn hwyrach yn y sesiwn, cawsant gyfle i gael mynediad at y castell byd bach, y byrddau peg a'r theatr bypedi. Roedd plant yn awyddus i rannu'r hyn yr oeddent yn ei wneud gydag eraill. Pan oeddent y tu allan, roedd dau blentyn a oedd yn chwarae yn y gegin fwd yn gyffrous wrth ddweud wrthym am yr uwd roeddent yn ei wneud. Roeddent yn troi, yn cymysgu ac yn ychwanegu rhagor o ddŵr at y mwd.

Mae’r plant yn mwynhau'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt ac, yn gyffredinol, gallant ddilyn eu diddordebau.

### 1.5 Pa mor dda mae’r plant yn datblygu, dysgu a dod yn annibynnol?

Mae’r plant yn gallu dysgu trwy eu chwarae.

Roedd gan y plant fynediad at adnoddau a oedd yn eu helpu i ddatblygu a dysgu trwy eu chwarae. Roeddent yn mwynhau gosod y cylchoedd wedi'u rhifo ar y polyn yn y drefn gywir, gan ddatblygu eu sgiliau rhifedd a chyfrifo. Roedd plant yn cymryd rhan mewn gweithgaredd a arweinir gan oedolion, sef plannu hadau. Roeddent yn dysgu am yr hyn yr oedd ei angen arnynt er mwyn eu helpu i dyfu. Roedd gan blant rai cyfleoedd i fod yn annibynnol, ac roeddent yn gallu cael mynediad at y rhan fwyaf o'r adnoddau'n hawdd. Roeddent hefyd yn gallu cael gafael ar eu cotiau, eu bagiau a chael mynediad at y toiled yn annibynnol. Roedd plant hefyd yn cael eu hannog i fod yn annibynnol yn ystod amser byrbryd, gan arllwys eu diodydd eu hunain a dewis eu byrbryd.

Mae plant yn rhydd i ddatblygu amrediad o sgiliau, gan gynnwys annibyniaeth.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae’r staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb i gadw plant yn ddiogel ac yn iach, ac maen nhw'n gweithredu rhai polisïau a gweithdrefnau effeithiol er mwyn eu cefnogi. Yn gyffredinol, maen nhw'n rheoli rhyngweithio'n dda, ond nid ymatebir i ymddygiad digroeso yn effeithiol ar bob adeg. Mae’r staff yn cynllunio ac yn goruchwylio cynnydd plant yn effeithiol, ac maen nhw'n rhoi ystyriaeth i hyn cyn mynd ati i gynllunio.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda mae’r ymarferwyr yn cadw’r plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae’r staff yn gweithredu rhai polisïau a gweithdrefnau effeithiol.

Roedd y staff yn gyfredol o ran eu hyfforddiant ar amddiffyn plant, ac roedd trafodaethau'n dangos eu bod yn ymwybodol o'r weithdrefn i'w dilyn pe bai ganddynt unrhyw bryderon ynghylch llesiant plentyn. Roedd polisïau a gweithdrefnau ar waith i gefnogi staff wrth gadw plant yn ddiogel. Gellid gwneud rhai newidiadau i'r trefniadau yn ystod dechrau'r sesiwn, i sicrhau na all unigolion heb awdurdod gael mynediad at y safle. Er enghraifft, wrth inni gyrraedd, roeddem yn gallu cael mynediad at y gwasanaeth a'r ystafell yr oedd y plant yn chwarae ynddi, heb i staff fod yn ymwybodol o'n presenoldeb. Cwblhawyd driliau tân rheolaidd mewn cydweithrediad â'r ysgol, a oedd yn helpu i sicrhau bod staff a phlant yn ymwybodol o'r weithdrefn i'w dilyn pe bai angen iddynt adael yr adeilad ar unwaith. Roedd y staff yn sicrhau bod damweiniau a digwyddiadau'n cael eu cofnodi, ond wrth arolygu'r dogfennau, roedd yn amlwg nad oedd rhieni'n llofnodi i ddangos eu bod wedi'u hysbysu yn eu cylch. Roedd blwch ticio i ddweud eu bod wedi hysbysu’r rhieni ynghylch hyn a'r ffordd y gwnaethant eu hysbysu, ond rydym yn argymell y dylai rhieni lofnodi drostynt eu hunain i dystio bod yr wybodaeth wedi'i rhannu.

Roedd staff yn deall pwysigrwydd hybu ffordd iach o fyw. Gwnaethant sicrhau bod plant yn cael cyfleoedd i fod yn egnïol gan roi mynediad i'r ardal awyr agored pan fyddai'n bosibl. Cynigiwyd byrbrydau maethlon, a gwelsom blant yn cael dewis o ffrwythau, ciwcymbr a llaeth neu ddŵr i'w yfed.

Mae’r staff yn cadw plant yn ddiogel, ond gellid gwneud rhai gwelliannau i sicrhau bod yr holl ymwelwyr wedi'u hawdurdodi.

### 2.2 Pa mor dda mae’r ymarferwyr yn rheoli rhyngweithio?

Mae’r staff yn ymwybodol o rai ymddygiadau, ac maen nhw'n ymateb iddynt yn effeithiol.

Roedd y staff yn sicrhau bod trefniadau ar waith fel bod plant yn gwybod yr hyn a oedd yn ddisgwyliedig ohonynt. Defnyddiwyd canmoliaeth i ddathlu rhyngweithio cadarnhaol. Defnyddiwyd rhai strategaethau effeithiol i atal ymddygiad digroeso rhag datblygu, ond gellid fod wedi gwella hyn ychydig wrth i staff ymateb yn weithredol i rai ymddygiadau a welwyd. Er enghraifft, roedd rhai plant yn dangos arwyddion eu bod yn dymuno rhedeg o gwmpas a bod yn egnïol. Roeddent yn dechrau ymladd chwarae ac yn cropian ar ben ac o dan y byrddau. Ni wnaeth y staff ymateb yn llawn i'r rhain, am nad oedd mynd allan i chwarae yn rhan o'r drefn ar y pryd. Byddai o fudd i'r plant pe bai'r gwasanaeth yn adolygu'r trefniadau arferol, neu pe bai'n eu gwneud yn fwy hyblyg. Roedd y staff yn cymryd rhan

weithredol yn chwarae'r plant, pan oedd yn briodol gwneud hynny. Fe'u gwelwyd yn chwarae yn y ganolfan arddio, yn gweini'r cwsmeriaid ac yn annog y plant i brynu rhai eitemau. Roedd amser byrbryd yn brofiad cymdeithasol, gyda staff yn creu sgwrs gyda'r plant.

Yn gyffredinol, mae'r staff yn rheoli rhyngweithio'n dda ac yn canmol ymddygiad cadarnhaol.

### 2.3 Pa mor dda mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Mae'r staff yn ymwybodol o anghenion unigol y plant, ac maen nhw'n darparu ar gyfer pob un.

Roedd y staff yn adnabod y plant yn dda ac roeddent yn ymateb ac yn darparu ar gyfer eu hanghenion unigol. Roedd trafodaethau â rhai o'r staff yn dangos eu bod yn ymwybodol o anghenion unigol y plant, boed y rheiny'n anghenion deietegol, datblygol neu'n ymddygiadol. Roeddent yn ceisio cymorth a chyngor allanol mewn modd gweithredol, er mwyn eu helpu wrth ddarparu gofal effeithiol. Cwblhawyd arsylwadau rheolaidd ar y plant, a defnyddiwyd y rhain i gofnodi cynnydd a nodi ffyrdd o ehangu eu dysgu. Yna, byddent yn ystyried hyn wrth gynllunio. Roedd y staff yn sicrhau bod plant yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu hannibyniaeth. Er enghraifft, dewiswyd plant i helpu i dorri'r ffrwythau ar gyfer amser byrbryd, ac i osod y bwrdd gyda chwpanau a phlatiau. Roedd staff hefyd yn annog, ac roeddent wedi cyflwyno, gweithdrefn lle roedd plant yn ymarfer ysgrifennu eu henwau pan fyddant yn cyrraedd y gwasanaeth.

Mae staff yn hyrwyddo datblygiad y plant trwy ddarparu cyfleoedd iddynt ddatblygu eu dysgu a'u hannibyniaeth.

## 3. Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Yn gyffredinol, mae’r arweinwyr yn darparu amgylchedd diogel lle y mae gan blant fynediad at ardaloedd y tu mewn a thu allan er mwyn chwarae a dysgu.  Mae adnoddau ac offer o ansawdd da ac maen nhw'n briodol ar gyfer oedrannau a chamau datblygu'r plant.

### Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau diogelwch yr amgylchedd?

Mae'r arweinwyr yn asesu'r ardaloedd y mae'r plant yn eu defnyddio am beryglon.

Rhoddwyd rhai gweithdrefnau ar waith i sicrhau bod y plant a'r amgylchedd yn ddiogel. Roedd yr arweinwyr wedi cwblhau asesiadau risg ar yr holl ardaloedd a ddefnyddid gan y plant, ac roedd tystiolaeth yn dangos eu bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn berthnasol. Roedd drysau allanol a gatiau yn cael eu cadw dan glo pan oedd yr holl blant yn bresennol, er y byddai newidiadau i'r ffordd y caiff y drws ei reoli pan fydd rhieni'n dod â'u plant yn helpu i sicrhau bod plant yn aros yn ddiogel. Roedd cofrestri staff a phlant yn cael eu cadw, ac roedd ymwelwyr yn cael eu cofnodi. Roedd hyn yn sicrhau y gellid cyfrif am bawb yn y gwasanaeth mewn argyfwng.

Yn gyffredinol, mae’r arweinwyr yn darparu amgylchedd diogel i'r plant.

### 3.2 Pa mor dda mae’r arweinwyr yn sicrhau addasrwydd yr amgylchedd?

Mae’r arweinwyr yn sicrhau bod gan blant fynediad at ddigon o ofod y tu mewn a thu allan.

Roedd yr arweinwyr yn rhoi mynediad i'r plant at ddwy ystafell er mwyn iddynt eu defnyddio ar gyfer chwarae a dysgu. Roedd y rhain yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda yn gyffredinol, a chyda gwaith y plant wedi eu harddangos, roeddent yn darparu ymdeimlad o werth a pherthyn i'r plant. Penderfynodd yr arweinwyr a'r staff ddefnyddio un ystafell yn unig ar y tro, fel bod y plant yn gallu derbyn goruchwyliaeth ddigonol. Roedd yr amgylchedd yn cynnwys cyfleusterau toiled addas, ardal paratoi bwyd ac ystafell gotiau.

Roedd yr ardal awyr agored a oedd ar gael i'r plant yn ardal ddeniadol lle roedd gan y plant fynediad at amrywiaeth o wahanol wynebau, gan gynnwys porfa a phalmant. Roedd yn ardal lle y gallent fynd ar eu beiciau, chwarae gemau pêl a chwarae rôl yn y gegin fwd, heb darfu ar unrhyw un. Gwelsom blant yn mwynhau dilyn ei gilydd o gwmpas y llwybr ar eu beiciau, tra bo eraill yn mwynhau cicio'r bêl at ei gilydd.

Mae’r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn fan addas i blant chwarae a dysgu.

### 3.3 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau ansawdd yr adnoddau a’r offer?

Mae’r arweinwyr yn sicrhau eu bod yn darparu adnoddau addas i'r plant.

Darparodd arweinwyr adnoddau a oedd yn dilyn athroniaeth y cyfnod sylfaen. Roedd ardaloedd dysgu, gan gynnwys tywod, dŵr, paent a chwarae rôl, ar gael yn ystod rhai adegau o'r sesiwn. Roedd cael offer ac adnoddau gwahanol ym mhob ystafell, a chyfnewid rhwng yr ystafelloedd a ddefnyddir yn ystod y sesiwn, yn galluogi'r plant i gael mynediad at amrywiaeth o wahanol weithgareddau. Gellid gwneud rhai gwelliannau i sicrhau argaeledd

rhai adnoddau naturiol ym mhob ystafell. Er enghraifft, roedd y tywod, dŵr a'r toes chwarae i gyd mewn un ystafell. Roedd yr adnoddau a'r offer o ansawdd da ac roedd eitemau fel byrddau, cadeiriau a storfeydd o uchder addas i blant allu eu defnyddio'n annibynnol.

Mae’r arweinwyr yn darparu adnoddau ac offer o ansawdd da, sy'n addas ar gyfer y plant sy'n mynychu'r gwasanaeth.

## 4. Arweinyddiaeth a Rheolaeth

### Crynodeb

Mae’r arweinwyr yn rheoli'r gwasanaeth yn dda ac maen nhw'n cydnabod pwysigrwydd hunanwerthuso a gwneud gwelliannau. Yn gyffredinol, maen nhw'n rheoli staff yn dda, ond mae angen iddynt gyflwyno proses i sicrhau bod staff yn derbyn goruchwyliaeth ac arfarniadau rheolaidd. Mae’r arweinwyr wedi datblygu partneriaethau cadarnhaol â rhieni ac asiantaethau allanol.

### Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Yn gyffredinol, mae’r arweinwyr yn rheoli'r gwasanaeth yn dda.

Roedd gan yr arweinwyr weledigaeth glir a dealltwriaeth o'r gofal roeddent yn gallu ei ddarparu. Roedd hyn yn cael ei rannu'n effeithiol yn eu datganiad o ddiben. Roedd polisïau a gweithdrefnau ar waith, ac roeddent yn cael eu rhannu â staff a'u cymhwyso mewn arferion.

Mae'r arweinwyr yn effeithiol yn eu gwaith o reoli'r gwasanaeth.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae’r arweinwyr wedi dechrau casglu safbwyntiau eraill er mwyn eu helpu i wneud gwelliannau.

Roedd yr arweinwyr yn deall pwysigrwydd gwerthuso'r gwasanaeth maent yn ei gynnig. Am fod y gwasanaeth wedi bod yn gweithredu am lai na 12 mis, nid oedd wedi ysgrifennu adroddiad ansawdd gofal. Roedd trefniadau eisoes ar waith ar gyfer anfon holiaduron i rieni er mwyn casglu eu safbwyntiau a'u barn am y gofal a'r gwasanaeth a ddarperir. Trwy drafodaethau â'r person â gofal, roedd yn amlwg bod newidiadau eisoes wedi cael eu gwneud i geisio gwella'r gofal a ddarperir. Roedd hyn yn cynnwys defnyddio un ystafell yn unig ar y tro fel bod plant yn derbyn goruchwyliaeth ddigonol.

Mae’r arweinwyr yn deall pwysigrwydd a manteision hunanwerthuso.

### 4.3 Pa mor effeithiol mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae’r arweinwyr yn sicrhau bod staff yn addas i weithio yn y gwasanaeth.

Roedd gan yr arweinwyr broses recriwtio gadarn ar waith, a oedd yn helpu i sicrhau bod gwiriadau perthnasol wedi cael eu cwblhau, a bod staff yn addas i ofalu am y plant. Roedd y staff wedi cwblhau'r holl hyfforddiant perthnasol, a oedd yn cynnwys cymorth cyntaf, diogelu plant a hylendid bwyd. Yn gyffredinol, roedd ffeiliau staff wedi'u cwblhau ac roeddent yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol, ond nid oedd tystiolaeth bod goruchwylio ac arfarnu rheolaidd yn digwydd nac yn cael eu trefnu. Gwnaethom drafod hyn â'r person cofrestredig, a'u cynghori bod hyn yn rheolaidd a bod yn rhaid iddynt sicrhau eu bod yn cael eu trefnu.

Yn gyffredinol, mae’r arweinwyr yn rheoli staff yn dda.

## 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Roedd cysylltiadau da ac agos iawn â'r ysgol a'r staff.

Roedd yr arweinwyr wedi ffurfio partneriaethau gyda rhieni. Roedd gwybodaeth yn cael ei rhannu mewn nifer o ffyrdd i sicrhau bod rhieni'n derbyn diweddariadau ar y gofal roedd eu plant yn ei dderbyn. Roedd trafodaethau'n cael eu cynnal ar ddechrau ac ar ddiwedd pob sesiwn, ac roedd cylchlythyrau'n cael eu hanfon adref pan fyddai angen rhannu gwybodaeth, ac roedd tudalennau ar gyfryngau cymdeithasol ar gael, a oedd yn galluogi rhieni i weld ffotograffau o'u plant.

Roedd yr arweinwyr yn derbyn cymorth gan asiantaethau allanol pan oedd ei angen arnynt. Os canfuwyd bod angen anghenion ychwanegol ar blentyn, roedd y gwasanaeth yn gweithio'n agos gydag asiantaethau cymorth i sicrhau eu bod yn darparu'r gofal gorau posibl. Roedd cyswllt clos â'r ysgol hefyd yn eu galluogi i rannu arferion ad, adnoddau a chyfleusterau.

Mae'r arweinwyr yn datblygu partneriaethau sy'n eu cefnogi wrth ddarparu gofal effeithiol i'r plant.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

We made the following recommendations;

- Adolygu'r gwaith diogelu a threfnu pan fydd plant yn cyrraedd, er mwyn atal unigolion heb awdurdod rhag cael mynediad at y safle;

- darparu rhywle i rieni lofnodi'r cofnodion damweiniau a digwyddiadau yn hytrach na thicio i ddangos eu bod wedi'u hysbysu a'r ffordd y cawsant eu hysbysu;

- adolygu'r strwythur a'r trefniadau dyddiol fel bod gan blant fynediad at y tu allan yn gynnar yn y sesiwn;

- sicrhau bod staff yn derbyn goruchwyliaeth ac arfarniadau rheolaidd.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad dirybudd, ôl-gofrestru llawn a gynhaliwyd fel rhan o’n hamserlen arferol o arolygiadau. Gwnaeth un arolygydd ymweld â'r gwasanaeth ar 13 Ebrill 2018 o 9:05am i 12pm.

Gwnaethom y canlynol:

- Arolygu sampl o ddogfennau a pholisïau, gan gynnwys asesiadau risg, dwy ffeil staff, cofnodion a chynlluniau pedwar o blant;
- arsylwi ar y plant ac ar y gofal roeddent yn ei dderbyn. Gwnaethom ddefnyddio dull y Fframwaith Arsylwi Cryno ar gyfer Arolygu (SOFI2) i gasglu tystiolaeth o ymgysylltiad y plant a'r gofal a ddarperir gan staff;
- siarad â'r plant, y person â gofal a'r aelod arall o staff;
- archwilio'r ardaloedd a ddefnyddid gan y plant; a
- siarad â'r unigolyn cyfrifol dros y ffôn a rhoi adborth ar 19 Ebrill 2018 am nad oeddent yn gallu bod yn bresennol yn ystod yr arolygiad.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn yr ydym yn ei wneud ar ein gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Sesiynol |
| Unigolyn Cyfrifol | Janet Toms |
| Personau â gofal | Angela Davies |
| Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd | 24 |
| Ystod oedran y plant | 3–4 |
| Oriau agor | 9am–11:30am |
| Iaith weithredol y gwasanaeth | Saesneg |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Dyma oedd yr arolygiad cyntaf ers cofrestru ym mis Hydref 2017 |
| Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn | 13 Ebrill 2018 |
| Ydy hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| Ydy'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed? | Nac ydy |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol y Gymraeg? | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol y Gymraeg. Mae hyn am fod y gwasanaeth wedi'i leoli mewn ardal sydd yn bennaf yn Saesneg ei hiaith. |
| Gwybodaeth ychwanegol: | |